Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? Edrychwch arno yn eich porwr.

Rhifyn 269 (Cymru) – 17 Ebrill 2020

Cofrestru etholiadol: arweiniad a chefnogaeth ar gyfer y canfasio blynyddol diwygiedig

Ym Mwletin yr wythnos diwethaf (Bwletin 268), gwnaethom ddiweddaru bod Swyddfa'r Cabinet ar hyn o bryd yn adolygu nifer o opsiynau mewn perthynas â rheoli cofrestru etholiadol yng ngoleuni'r pandemig coronafirws. Wrth ystyried y canfas, fe wnaethant nodi nad ydynt yn disgwyl i'r opsiynau gynnwys dychwelyd i'r canfasio cyn diwygio ac y dylai EROs felly barhau i baratoi ar gyfer y canfasio blynyddol diwygiedig orau ag y gallant o dan yr amgylchiadau.

O ganlyniad, gwnaethom ymrwymo i'ch diweddaru yr wythnos hon ar ein gwaith i gefnogi'r canfasio blynyddol diwygiedig, gan gynnwys cyhoeddi ein canllawiau canfasio newydd.

Canllawiau
Rydym bellach wedi cyhoeddi ein canllawiau craidd newydd ar gyfer EROs i gefnogi cyflwyno'r canfasio blynyddol diwygiedig.

Datblygwyd y canllawiau mewn ymgynghoriad agos â chydweithwyr ar draws y gymuned etholiadol, gan gynnwys Swyddfa'r Cabinet, Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), Cymdeithas Aseswyr yr Alban (SAA), Gweithgor Cofrestru Etholiadau a Refferenda (ERRWG) a Gweithgor Ymarferwyr Etholiadol Cymru. (WEPWG). Mae'n adlewyrchu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer EROs a'r hyn yr ydym yn credu y dylai EROs eu disgwyl gan eu staff wrth gynllunio ar gyfer y canfasio yn eu hardal.

Fel y gwnaethom gynghori ym Mwletin 262, mae'r canllawiau canfasio wedi'u cyhoeddi yn ein fformat newydd ar y we sy'n darparu hyblygrwydd o ran sut rydych chi'n cyrchu ac yn llywio'r canllawiau, wrth gadw nodweddion rydyn ni'n gwybod sy'n bwysig i chi, fel y gallu i argraffu copïau o adrannau o'r canllawiau yn galed. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn cyflwyno canllawiau i'w gwneud yn gliriach ac yn fwy cryno, wrth barhau i ddarparu canllaw llawn o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer cyflwyno'r canfasio.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Cofrestru etholiadol: arweiniad a chefnogaeth ar gyfer y canfasio blynyddol diwygiedig

Diweddariad ar ein gwaith i gefnogi'r canfasio blynyddol diwygiedig, gan gynnwys dolen i'n canllaw canfasio newydd

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r *Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol.*

Cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data y DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd

Rydym hefyd yn diweddaru ein hadnoddau ategol ar gyfer EROs ar ddanfon y canfasio a fydd yn cael ei gyhoeddi ar sail dreigl erbyn diwedd y mis hwn. Rydym hefyd yn gweithio ar drawsnewid gweddill y gyfres o ganllawiau ERO i'r fformat newydd ac yn anelu at gyhoeddi hyn o ddiwedd mis Mai 2020. Yn y cyfamser, gellir cyrchu hyn i gyd fel arfer ar ffurf PDF ar ein gwefan.

Gobeithiwn y bydd y canllawiau arddull newydd yn reddfol i'w llywio a'u defnyddio, ond er mwyn helpu i'ch cefnogi chi i sicrhau'r budd mwyaf o'r fformat newydd, rydym wedi cynhyrchu dogfen a ddylai ateb unrhyw Holi ac Ateb (Q&A) ymholiadau cychwynnol sydd gennych. Os bydd angen unrhyw gefnogaeth bellach arnoch, cysylltwch â infowales@electoralcommission.org.uk.

Deunyddiau pleidleiswyr
Ymhellach i Fwletin 262, rydym ar y trywydd iawn i sicrhau bod y tri deunydd canfasio newydd ar gael y mis hwn - Cyfathrebu Canfasio A, Cyfathrebu Canfasio B a ffurflen Canfasio.

Bydd yr holl ddeunyddiau eraill, gan gynnwys Gwahoddiadau i Gofrestru wedi'u diweddaru, deunyddiau etholwr categori arbennig a fformatau amgen yn cael eu rhyddhau cyn gynted â phosibl ar ol hynny. Rydym yn bwriadu y bydd y gyfres gyfan ar gael erbyn canol mis Mai 2020.

Byddwn yn cadarnhau mewn Bwletin yn y dyfodol pryd fydd yr adnoddau gwahanol hyn ar gael.

Safonau perfformiad
Unwaith eto fel yr amlygwyd ym Mwletin 262, rydym wedi bod yn cynnal ymgynghoriad ar safonau perfformiad drafft ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Rydym yn ddiolchgar am yr adborth a gawsom hyd yma, p'un ai trwy ymatebion i'r ymgynghoriad neu drwy drafodaethau yng nghyfarfodydd AEA ac SAA. Fodd bynnag, rydym yn deall nad yw rhai ohonoch a allai fod wedi bod eisiau ymateb i'r ymgynghoriad wedi gallu gwneud hynny o ystyried yr amgylchiadau presennol.

Gan gydnabod hyn ac effaith y pandemig coronafirws yn fwy cyffredinol, rydym nawr yn ystyried sut y gallwn adolygu ein hymagwedd at y gwaith safonau perfformiad, gan gydbwyso pwysigrwydd sicrhau bod y safonau a'r offer a'r templedi ategol ar gael i'ch cefnogi chi i gyflawni canfasio eleni tra'n sicrhau ein bod hefyd yn gallu aros yn hyblyg i'r amgylchiadau presennol ac ymateb i unrhyw adborth pellach yr hoffech ei ddarparu. Byddwn yn eich diweddaru mewn Bwletinau yn y dyfodol wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu.

(https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwyd)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2020